## NEVILLE MORRIS a gyrfa THOMAS JONES Pencerrig 1742–1803

# Yr Arlunydd mawr a anghofiwyd

MAE 'NA un ar hugain o Thomas Jonesiaid yn y Bywgraffiadur Cymreig, ond faint ohonoch a glywodd am Thomas Jones Pencerrig?

Gallwn gytuno â Ffransis Payne mai "arlunydd a anghofiwyd yw Thomas Jones". Sylwaf nad yw y ddiweddar Myfi Williams yn ei llyfr arloesol, "Arlunwyr Mawr y Byd" yn sôn dim amdano. Eithr daeth tro ar fyd, oherwydd yn ystod y deugain mlynedd diwethaf y mae'r cwmwl o ddinodedd a'i hamgylchynnodd cyhyd wedi dechrau cilio.

Gwnaeth Ffransis Payne hynny mor bell yn ôl â 1944/5 mewn erthyglau yn y 'Llenor'. Tua'r un amser yr oedd Ralph Edwards, sef tad Nicholas Edwards, cyn-Ysgrifennydd Cymru, wedi sgwennu amdano yn "The Country Life".Yna yn 1951 golygodd Paul Oppe, oedd yn feirniad celfyddyd, argraffiad newydd o "Gofiant" yr arlunydd ar ran Cymdeithas Walpole yn Llundain.

Mae'r cofiant neu'r dyddiadur yma yn ddogfen hynod o ddiddorol ac unigryw, oherwydd mae'n gofnodiad o fywyd artist yn y ddeunawfed ganrif ac yn llenyddiaeth brin o'r cyfnod.

Trwy y llyfryn yr ydym yn cael llawer o ffeithiau am fywyd yr arlunydd. Gwelaf mai o'r cofiant hwn y mae Megan Ellis wedi cael ei deunydd ar gyfer y Bywgraffiadur. Yr un modd Ffransis Payne yn ei erthyglau yn y "Llenor" ac a atgynhyrchwyd yn ei glasur o lyfr, 'Cwysau'.

Felly hefyd Dr. Prys Morgan yn y ddarlith a draddododd i Gymdeithas y Cymmrodorion ac a argraffwyd yn y 'Trafodion' am 1984.

* * * * *

EITHR ar wahân i'r cofiant hwn ni fuasai fawr neb arall hyd yn oed yn Lloegr yn gwybod dim amdano am nad oedd ei ddarluniau yn hysbys. Yna yn rhyfedd iawn yn 1954 ymddangosodd nifer o'i ddarluniau mewn ocsiwn yn Llundain.

Fel y gellid disgwyl doedd gan neb ar y pryd ddim syniad am yr arlunydd nac o werth ei ddarluniau, ar wahân i ryw ddau neu dri. Gwelodd Ralph Edwards hwy a daeth yntau i sylweddoli bod angen dyrchafu gwaith Thomas Jones.

Yn 1970 gyda chymorth John Jacobs, curadur Marble Hill House, Twickenham, cynhaliwyd arddangosfa o'i weithiau yno a'u dwyn wedyn i'r Amgueddfa yng Nghaerdydd. Yn y cyfamser cyhoeddodd R.C.B. Oliver, athro wedi ymddeol, yn Llandrindod, lyfryn o ryw 88 o dudalennau yn olrhain hanes ac achau teulu yr arlunydd.

Gydag ymddangosiad ei ddarluniau daeth rhai o feirniaid celfyddyd gain i ymddiddori ac i ymserchu ynddynt. Yn eu plith yr oedd Syr Lawrence Gowing, Slade Professor of Fine Art ym Mhrifysgol Llundain ac yn 1985 cyhoeddodd ffrwyth ei sylwadaeth gyda'i lyfr "The Originality of Thomas Jones" a oedd wedi dod, yn ei eiriau fo'i hun yn "arwr bach iddo".

Felly o'r diwedd dyma roi y clod dyledus i'r bachgen hwn o Sir Faesyfed.

Gellir yn fethodistaidd ddweud tri pheth amdano, – 'Roedd yn ddisgybl i Richard Wilson; 'Roedd yn awdur 'cofiant'; 'Roedd yn baentiwr awyr agored. Ond beth am hanes ei fywyd?

* * * * *

GANWYD Thomas mewn tŷ y tir hwn y byrlymai y dŵr ardal Cefn Llys sydd bellach yn rhan o dref Llandrindod ym Mhowys. Yr oedd ei daid, John Thomas, wedi ychwanegu darn o dir o'r enw 'Cwm y Gof' at y stad fechan a berthynai i'r teulu, ac yn y tir hwn y byrlymai y dwr rhinweddol hwnnw oedd i wneud Llandrindod mor boblogaidd fel tref ffynhonnau.

Yr oedd y tad yn arlunydd, wedi priodi Hannah ei gyfnither, ac o'r briodas hon esgorwyd ar 16 o blant! Eithr fel y digwyddai yn aml yn y cyfnodau hynny bu farw saith ohonynt yn eu plentyndod, ac o'r saith bachgen a'r ddwy ferch oedd yn weddill dim ond y ddwy ferch oedd i barhau y tylwyth.

Deëllir mai ficer Cefn Llys a fu'n gyfrifol am roddi tipyn o addysg cynnar i rai o'r plant yn y dechrau, ond pan oedd Thomas ond ryw gog bach chwe mlwydd oed symudodd y teulu i fyw i Pencerrig. (Mae'n westy erbyn hyn ac fe welwch yr arwydd ar y ffordd i lawr o Landrindod i sioe Llanelwedd).

Y rheswm am hyn oedd bod Thomas Jones (hynaf) wedi blino ar yr holl rialtwch oedd yn cynyddu fel y dechreuai'r dref ddatblygu yn y cyfnod cynnar hwn.

Cyflogwyd John Evans o Academi Caerfyrddin yn athro preifat ar y plant, ond pan fu farw hwnnw anfonwyd Thomas a'i fab hynaf i Goleg Crist, Aberhonddu.?? Yno mwy na thebyg y dechreuodd y diddordeb mewn darluniau. Prynodd ei dad offer paentio iddo a chafodd yn Charles Powel o Gastell Madog, un oedd yn barod i'w gefnogi yn y cyfeiriad hwn.

Am ryw reswm symudodd o Goleg Crist i ysgol Daniel Williams yn Llanfyllin, a thua'r amser yma dechreuodd ewythr i'w fam gymryd diddordeb ynddo, a chynnig talu am ei addysg pe bai yn mynd i Rydychen ac yna yn cymryd urddau eglwysig. Cydsyniodd Thomas, yn anfoddog mae'n wir, ond nid oedd i orffen ei gwrs.

Yn 1761 ag yntau yn ei ail flwyddyn bu farw John Hope yn ddi-ewyllys, a chan nad oedd dim darpariaeth wedi ei wneud gogyfer â threuliau addysg Thomas bu'n rhaid iddo ffarwelio â Rhydychen.

* * * * *

O WELD ei awydd i ddilyn ei drywydd fel arlunydd daeth Charles Powel unwaith eto i'w gynorthwyo, a hynny drwy ei gyflwyno i sylw William Shipley a oedd yn frawd i Esgob Llanelwy. Yr oedd Shipley yn Llundain, a derbyniodd Thomas yn ddisgybl yno.

Ar ôl ysbaid yno ymunodd â'r academi yn St. Martin's Lane, ac yma dangosodd ei dueddiadau at baentio tirluniau.

Ymhen llai na blwyddyn roedd ffrind iddo wedi ei gyflwyno i'w gyd-wladwr, Richard Wilson. Yr oedd Wilson yn y cyfnod hwn wedi dychwelyd o'i grwydriadau yn yr Eidal ac yn mwynhau cyfnod pur lewyrchus a chanddo eu stiwdio yng Nghofent Garden.

Ymddengys fodd bynnag na fu i Thomas amgyffred gwir fawredd ei feistr ar y pryd ond roedd wedi cytuno i ddod yn ddisgybl iddo am ddwy flynedd am hanner can gini. Diddorol yw darllen yn ei gofiant y darlun a rydd o'i athro.

Tra oedd yn ddisgybl i Wilson enillodd wobr Cymdeithas yr Artistiaid am un o'i ddarluniau a chael ei ethol yn aelod o'r Gymdeithas. Daeth ffrwgwd ymhen tipyn i rwygo'r Gymdeithas hon, ac aeth un rhan gyda Joshua Reynolds i ffurfio yr Academi yn 1768 ac yr oedd Wilson yn un o'i sylfaenwyr.

Ond dewis aros hefo'r hen gymdeithas a wnaeth Thomas hyd nes i honno, ymhen amser, fwrw ei phlwc. Yr oedd yn mwynhau ei hun yn y ddinas, gyda'i chlybiau a'i thafarndai coffi.

Dysgodd sut i drin y cledd gan ryw Gymro o'r enw Davies a thalu am ei wersi gyda'i ddarluniau a roddai yn lle tâl i Davies. Fel hyn aeth pum mlynedd heibio cyn iddo ddychwelyd i Bencerrig.

Ar ôl ysbaid o fod adre yn paentio o gwmpas ei gynefin aeth draw i Gadbridge yn Hemel Hempstead at ei gefnder, Rice James, a phaentio yn yr awyr agored a gorffen ei ddarluniau yn y fan a'r lle, yr hyn oedd yn beth digon anghyffredin ymysg artistiaid y pryd hynny. Mae iddynt rhyw ffresni ac unoliaeth ac erbyn hyn y maent yn dwyn prisiau pur uchel.

Arhosodd hefyd mewn pentre o'r enw North Aston, sydd rhyw ddeg milltir ar hugain tu allan i Rydychen ar y ffordd i Banbury. Bu'n westai yno i'r yswain lleol, Oldfield Bowles, a oedd hefyd yn baentiwr amatur.

Pan ewch i'r Amgueddfa yng Nghaerdydd y tro nesaf chwiliwch am y darlun mawr hwnnw a elwir 'The Bard', oblegid yn y pentre bach yma y cyflawnodd y gwaith hwnnw a'i roi wedyn yn rhodd i Bowles.

Yna aeth yn ei ôl i Lundain ond ymadawodd â'r ddinas yn 1775 a chyrchu yn ôl i Bencerrig. 'Roedd yn awyddus iawn i 'wneud y daith i'r cyfandir ac yn arbennig i'r Eidal'.

* * * * *

YN GROES i ddymuniad ei rieni anghydffurfiol penderfynodd yn 1776, ag yntau yn 34 mlwydd oed, deithio i Rufain.
ddarluniau a'i cadwodd yn ddigon prysur, ac fe aeth i Naples am ryw flwyddyn. Yna tua'r amser yma daw cofnodiad yn ei Gofiant ynglyn â'i 'housekeeper'.

'Roedd wedi cyfarfod gwraig o'r enw Maria Turnstaat oedd yn wreiddiol o Gopenhagen, ac wedi priodi dyn a'i gyfenw'n 'Moncke', a fu farw ymhen ychydig wedi iddo gael ei dderbyn i'r Eglwys Gatholig. Gwyddai Maria dipyn am y Saeson a'u hiaith ac yr oedd yn un dda am wneud tamaid o fwyd.

Aeth yn gyfeillgarwch garwrol, a dyma benderfynu symud i Naples. Yn fuan iawn daeth y ddau, er yn dal yn ddibriod, yn rhieni i ddwy ferch fach, sef, Anna Maria Rachella ac Elisabeth Francesca.

Ymddengys ei fod yn mwynhau y cyfnod hwn yn Naples yn fawr, aeth ati i baentio rhai o adeiladau a strydoedd y ddinas, rhai ohonynt o ffenestr agored ei ystafell ac y mae eu symlrwydd yn denu eich llygaid. Ond er fod ei hyder yn cynyddu roedd cwmwl ar y gorwel; daeth gair o Bencerrig fod ei dad wedi marw ar y 6ed o Ragfyr 1782 a bu'n rhaid gwneud trefniadau i ymadael.